

Cymanfa

Ddydd Sul, Mai 21, cynhelir Cymanfa Ysgolion Sul Annibynwyr Dosbarth Bangor-Bethesda yng nghapel Carmel, Llanllechid. Dechreuir am 10.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cymorth Cristnogol

Mai 14-20

Mae gwir angen yr arian a gesglir yn ystod yr Wythnos i gefnogi gwaith yr elusen hon o estyn cymorth i bobl sy'n dioddef yn ein byd. Ac yn lleol, mae angen pobl i helpu gyda'r gwaith o gasglu o ddrws i ddrws os yw'r ymdrechion lleol i lwyddo.

Wythnos yn unig sydd tan y bydd angen gwneud y casgliadau. Rhowch wybod os gellwch helpu.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mai 14: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Mai 12: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 7: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 7

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Mai 14

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

Mai 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mai 14: Nid oes oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fercher, Mai 10: Cyfarfod 'Y Ffordd' yng Ngharmel am 7.00 o'r gloch.

Dydd Iau, Mai 11: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 14: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Mai 8: Bydd aelodau'r Dosbarth Gwau yn mynd am dro i Abakhan, Llannerch-y-Môr, Mostyn. Cychwyn am 10.15 o Rachub.

Nos Fercher, Mai 10: Cyfarfod 'Y Ffordd' am 7.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mai 12: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 14: Oedfa Cymorth Cristnogol yn Jerusalem, Bethesda am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Mai 8: Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Cartref, Caethro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mai 7

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Myfyr Roberts

Mai 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mai 21

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cledwyn Williams



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 728: Dydd Sul, 07 Mai, 2017

Priflythyren

Mae priflythrennau (neu 'lythrennau mawr' fel y byddwn yn eu galw wrth ddyngu plant i sgwennu) yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol. Ond mae'n rhaid eu defnyddio'n gywir. Does dim angen eu defnyddio bob munud. Fel y dywed Rhiannon Ifans yn *Y Golygiadur*: 'Fel egwyddor, fe hepgorir priflythrennau lle mae hynny'n bosibl, ac o wneud hynny mae cysondeb yn hanfodol.' Nid oes angen priflythrennau ym mhobman. Mae'r gyfrol yn dangos pryd y dylid defnyddio priflythyren, gan roi sawl enghraifft. Un ohonynt yw: 'Defnyddiwch briflythyren i osgoi dryswch'.

Mae Cristnogion yn defnyddio'r gair 'ffydd' mewn dwy ffordd. Gall hynny fod yn ddryslud. Ond wyddoch chi be? Trwy ddefnyddio priflythyren gallwn osgoi'r dryswch hwnnw, gan sôn am 'ffydd' ar y naill law ac am y 'Ffydd' ar y llaw arall heb berygl o gwbl ein bod yn drysu rhwng y ddau beth.

Wrth sôn am 'ffydd' (heb briflythyren ar ddechrau'r gair) yr hyn a olygwn ydi ymddiriedaeth. Yr ydym yn rhoi ein ffydd mewn gwahanol bethau bob dydd. Wrth droi llyw car, mae gennym ffydd y bydd yr olwynion yn troi'r car i'r cyfeiriad cywir. Wrth eistedd mewn cadair, yr ydym yn ymddiried ynnddi i'n dal. Ac wrth roi ein ffydd yn Nuw, yr ydym yn ymddiried yn ei gariad ac yn ei ofal. Mae ffydd yn Iesu Grist yn golygu ein bod yn pwysu arno ac yn ymddiried ynddo i fod yn Arglwydd ac yn Waredwr i ni.

A phan ddefnyddiwn y gair 'Ffydd' (gyda'r briflythyren), cyfeirio yr ydym at y grefydd Cristnogol, a'r corff o gredoau a'r bywyd sy'n rhan o'r grefydd honno. Mae'r 'Ffydd' yn golygu'r gwirioneddau sydd wedi eu datguddio i ni am Dduw, am Iesu ac amdanom ninnau. Mae'n golygu'r ddsgeidiaeth a roddwyd i ni yn y Beibl a thrwy eiriau ac esiampl Iesu Grist. Mae'n golygu'r bywyd yr ydym wedi ein galw iddo fel disgyblion Crist.

Ond er gwahaniaethu rhwng ffydd a'r Ffydd, mae'n bwysig cofio nad dau beth ar wahân ydynt. Wedi'r cyfan, pobl sy'n gweithredu ffydd yw 'pobl y Ffydd'. Pobl ydynt sydd wedi dod i ymddiried yn y Crist a ddatguddiwyd iddynt. Nid peth goddrychol ydi ffydd. Nid peth annelwgg mohono. Ac nid teimlad neu agwedd meddwl mohono. I'r Cristion, ffydd ydi ymddiriedaeth yn Iesu Grist ar sail yr hyn y mae ef wedi ei wneud trosom a'r hyn yr ydym ni yn ei wybod amdano. Yr hyn y mae'r Ffydd wedi ei ddangos i ni am Dduw sy'n gwneud i ni roi ein ffydd ynddo.

A pheth arall gwerth ei gofio yw mai rhoddion Duw yw'r naill beth a'r llall. Rhodd Duw yw'r Ffydd a'r cyfan y mae honno'n ei ddatguddio am gariad Duw. Nid ffrwyth meddwl pobl yw'r Ffydd Cristnogol. A rhodd Duw hefyd yw'r ffydd yr ydym yn ei gweithredu yn Iesu Grist. Ie, dim ond trwy nerth a gras Duw y medrwn ymddiried ynddo.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Clyw fy nghri, O Dduw, a
gwrando ar fy ngweddi; o
eithaf y ddaear yr wyf yn
galw arnat, pan yw fy nghalon ar suddo.
Arwain fi at graig sy'n uwch na mi;
oherwydd buost ti'n gysgod imi, yn dŵr
cadarn rhag y gelyn. Gad imi aros yn dy
babell am byth, a llochesu dan gysgod dy
adenydd' (Salm 61:1-4).



BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Mr Euron Hughes ac am
5.00 o'r gloch gan Mr Myfyr Roberts.
Dilch iddynt am eu gwasanaeth. Bydd yr
Ysgol Sul am 11.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00
o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00

o'r gloch gan y Parchg Dafydd Job,
Bangor. Diolch iddo am ei wasanaeth.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Penwythnos Plant yng Ngholeg y Bala

Mae'r penwythnos hwn yng Ngholeg y
Bala, ar y cyd â Chapel y Rhos, Llanrug,
i fod i'w gynnal y penwythnos nesaf.
Mae'n beryg y bydd rhaid ei ohirio
ddechrau'r wythnos am nad oes digon o
griw.

Ond os oes unrhyw blentyn rhwng 8 a 12
oed eisiau mynd yno a wnewch chi roi
gwybod i'r Gweinidog erbyn HENO, nos
Sul, Mai 7.

Cyfarfod Eglwysig

Cynhaliwyd Cyfarfod Eglwysig i aelodau
Ebeneser nos Fawrth diwethaf.

Adroddwyd am y trafodaethau a gafodd
Pwyllgor y Capel gyda'r Cyfreithwyr a'r
syrffewyr sy'n gweithredu dros yr eglwys.
Oherwydd cyflwr gwael y capel y cyngor
a gafwyd oedd bod y capel yn cael ei
werthu mor fuan â phosib, a bod hynny'n
cael ei wneud trwy ocsiwn. Mae'r ffaith
nad ydym wedi defnyddio'r capel ers rhai
blynnydoedd a'r ffaith nad oes gennym
arian i'w atgyweirio yn cadarnhau mai
dyna a ddylid ei wneud.

Penderfynwyd yn unfrydol felly y bydd y
capel yn cael ei werthu trwy ocsiwn. Os

bydd modd i'r Cyfreithwyr a'r Syrffewyr
gael popeth i law mewn pryd, bydd y
capel yn cael ei gynnwys mewn ocsiwn
ym Mangor ddechrau mis Awst eleni.
Er mwyn sicrhau na chaiff ei werthu am
bris annerbyniol, bydd pris cadw yn cael
ei osod arno.

Mae'n bwysig nodi mai'r capel yn unig
sy'n cael ei werthu. Byddwn yn cadw'r
festri, a bydd angen trafod ymhellach
beth sydd i'w wneud ynddi. Os gwerthir
y capel, byddai modd defnyddio rhan o'r
arian a geir amdano i wella'r festri.

Mae'r drafodaeth gyda Grwp Datblygu
Deiniolen, ynghylch defnydd cymunedol
posibl i'r festri, yn parhau.

Y Ffordd

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn
festri Carmel nos Fercher, Mai 10 am
7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i chi ddod
atom.

Dyma'r ddwy thema ar gyfer y cyfarfod:

Craidd y Ffydd

1. Beth sy'n sylfaenol i'ch ffydd chi, a pham?
2. Wrth gyflwyno'r ffydd i eraill sut mae osgoi: a) ei wneud yn rhy gymhleth i'w ddeall; b) yn rhy syml i gwmpasu'r byd cymhleth rydym yn byw ynddo?
3. Ydy Duw'n datguddio ei hun mewn ffyrdd eraill ar wahân i Gristnogaeth?
4. 'Fe sy'n dal y cwbl gyda'i gilydd' (Colosiaid 1:17). Beth mae hyn yn ei ddweud wrthy ch chi am Iesu Grist?

Credu'r Ffydd

1. Ydy hi'n hawdd crynhoi neges y Beibl i gyfres o osodiadau, a pha mor bwysig yw ceisio gwneud hynny?
2. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng ffydd bersonol a ffydd breifaf?
3. Sut mae bod yn berthnasol i heddiw, ac aros yn ffyddlon i'r Beibl ac i draddodiadau'r Eglwys dros y canrifoedd?

4. Gyda chymaint heddiw fel pe byddent yn ddfater neu'n amheus o unrhyw fath o awdurdod, sut mae cyflwyno'r syniad o Arglwyddiaeth Iesu dros fywyd yn ei gyfanrwydd?

Yn amlwg, mae mwy na digon o bethau i'w trafod yn y cwestiynau hyn. Cawn fynd i'r afael â rhai ohonyn nhw nos Fercher.

Taith Dwylo Pysur

Ddydd Mercher, Ebrill 12 aeth 12 o bobl ifanc 'Dwylo Pysur' Capel Carmel, a 5 o oedolion, ar daith i Ben Llŷn. Ar y ffordd yno, ymwelwyd ag Eglwys Beuno Sant yng Nghlynnog. Oddi yno aed i Gapel Penlan, Pwllheli ac fe'u croesawyd yno gan y Parchg Glenys Jones, Gweinidog Penlan. Soniodd hi am Benjamin Jones, a ddaeth yn weinidog i eglwys Penlan yn 1789 ond sy'n fwyaf adnabyddus am ei gysylltiad â'r emynyddes, Ann Griffiths. Daeth Ann Griffiths i argyhoeddiad ffydd wedi iddi glywed Benjamin Jones yn pregethu. Cafodd y bobl ifanc ganu un o emynau Ann Griffiths, gydag Owain Morgan yn cyfeilio iddynt. Wedi cael pryd o sglodion a sgodyn ar y Maes ym Mhwillheli, ymlaen wedyn i Aberdaron ac i Eglwys Hywyn Sant. Diolch i Mrs Helen Williams am wneud y trefniadau.

CIC

Bydd CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener, Mai 12.

SLAM

(Sbort, Lles A Mwy)

Bu rhai o bobl ifanc CIC Llanberis yn SLAM yng Nghanolfan Tŷ'n Y Nant, Abererch o nos Wener tan bawn ddoe. Roedd hwn yn weithgaredd newydd a drefnwyd gan Undeb y Gair i gyflwyno'r Ffydd i bobl ifanc trwy gyfrwng chwaraeon gwahanol.